**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **DYDDIAD:** | 15 Rhagfyr 2021 |
| **LLEOLIAD:** | Cyfarfod rhithiol |
| **TEITL**: | Adborth ar ffrwd gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**:Darparu adborth ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr

Sefydlodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu bedair ffrwd waith i godi ymwybyddiaeth, at ddibenion hyfforddiant, ac i nodi agweddau sydd angen craffu pellach, yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2012, fel rhan o'r broses o gynllunio rhaglen waith y dyfodol. Yn ystod 2014, adolygwyd a diweddarwyd y ffrydiau gwaith. Roedd y ffrydiau gwaith yn cynnwys pedwar aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, a byddai'r Cadeirydd yn mynychu ac yn cyfrannu at bob un o'r pedair. Cytunwyd yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2017 y byddai eitemau ffrydiau gwaith Moderneiddio'r Seilwaith yn cael eu hystyried gan y prif bwyllgor, a byddai Aelodau'r ffrwd waith honno'n cael eu rhannu rhwng y ffrydiau gwaith eraill.

Mae Ffigur 1 yn amlinellu'r strwythur ffrydiau gwaith presennol:

tre




| | | |
|---|---|---|
| Swyddog Arweiniol/Lead Officer: | Swyddog Arweiniol/Lead Officer: | Swyddog Arweiniol/Lead Officer: |
| **Mary Davies** | **Gillian Evans** | **Elen James** |

**Ffrwd Waith Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Cynhwysiant a Llesiant**

**3 Rhagfyr 2021**

Derbyniodd y grŵp ddiweddariad ar y broses o drawsnewid i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Gweithredir y ddwy system – yr hen yn ogystal â'r newydd – am y tair blynedd nesaf. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn paratoi am y trawsnewid oddi ar 2017. Cafwyd rhaglen baratoi a hyfforddi ddwys. Cyhoeddwyd y

fersiwn derfynol o'r cod ADY yn ystod gwanwyn 2021 ac oddi ar fis Medi 2021 mae'r rhaglen trawsnewid ADY wedi bod yn fyw, ac yn cael ei chyflwyno'n raddol i'r dysgwyr ADY.  Cydnabu'r grŵp fod cyfrifoldeb ar bawb, yr ysgolion (y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni) a'r Cyngor fel corff.  Fe wnaeth Llywodraeth Cymru cyhoeddi fanylion canllawiau gweithredol diwedd Tachwedd 2021.

Cafodd y grŵp wybod am y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod Lleol yn ei baratoadau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ADY, gan gynnwys ymgorffori arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, datblygu adnoddau, codi ymwybyddiaeth rhieni, hyfforddiant, datblygu fframweithiau meddalwedd a chynyddu capasiti.  Mae cyflwyniad PwerBwynt yn y broses o gael ei baratoi, er mwyn ei rannu â llywodraethwyr ysgolion yn y flwyddyn newydd.   Mae'r Ddeddf yn gofyn i awdurdodau lleol "barhau i adolygu'r ddarpariaeth ADY".  Trafododd y grŵp y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu'r angen hwn.  Trafodwyd y canllawiau a ddarparwyd gan yr Awdurdodau Lleol ar gynlluniau datblygu unigol, gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, colegau addysg bellach a rhieni.  Roedd y cyflwyniad hefyd yn cwmpasu sicrwydd ansawdd a sut y byddai arfer dda yn cael ei rhannu.  Roedd rhan olaf y cyflwyniad yn cwmpasu'r dulliau o weithio gyda darparwyr ôl-16.